

Amcanion Ymgynghorwyr	Adroddiad Cynnydd yn ystod 2020
1. I gynghori ar strategaeth buddsoddi addas, a newidiadau i'r strategaeth, i gyflawni'r enillion buddsoddi gofynnol o fuddsoddiadau'r Gronfa i gefnogi cynnydd tuag at lefel cyllido sefydlog yn y tymor hir	Mae cyngor wedi ei dderbyn ar y Strategaeth Buddsoddi yn ystod 2020 yn dilyn y prisiad teirblynyddol.
2. I gyflawni dull buddsoddi sy'n adlewyrchu sefyllfa llif arian y Gronfa, ac esblygiad tebygol, a lleihau'r risg o ddadffuddsoddi gorfodol.	Mae amcanion strategol y Gronfa wedi eu nodi yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi ac mae'r Prisiad Actiwaraidd wedi cadarnhau bod y strategaeth buddsoddi yn rhoi tebygolrwydd uchel o gwrdd ag amcanion y Gronfa.
3. I gynghori ar weithredu strategaeth buddsoddi'r Gronfa fel bo'r angen, gan ystyried datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru. (PPC)	Mae'r ymarfer yma yn cael ei gynnal gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru.
4. I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau pensiwn perthnasol a chynghor arweiniol.	Mae'r holl drefniadau'n parhau i gydymffurfio. Ni fu unrhyw newidiadau rheoliadol diweddar yr oedd y Gronfa angen fod yn ymwybodol ohonynt.
5. I ddatblygu polisiau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhai yn ymwneud a Buddsoddi Cyfrifol.	Mae adolygiad parhaus o'r polisi buddsoddi cyfrifol gan edrych os oes modd ehangu'r scop. Mae sylwadau wedi eu derbyn ar gronfeydd newydd Baillie Gifford Alpha Paris Aligned a charbon isel Black Rock.
6. I sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu polisiau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys y rhai mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol	Mae cyngor parhaus wedi ei dderbyn ar fuddsoddiadau newydd i sicrhau eu bod yn gyson gyda'r strategaeth.
7. I ddarparu cyngor perthnasol ac amserol	Mae cyngor a diweddariadau cyson wedi ei dderbyn. Mae cyngor parhaus wedi ei dderbyn ar y trosglwyddiad i Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn enwedig gyda'r oedi yn y trosglwyddiad Incwm Sefydlog.
8. I gynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion buddsoddi	Nid yw Hymans wedi darparu hyfforddiant uniongyrchol ar ddogsbardiadau ased ond mae'r pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant drwy Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r gronfa wedi cymryd rhan yn yr Aseiad Gwybodaeth Genedlaethol i adnabod meysydd ar gyfer hyfforddiant y dyfodol.
9. Bydd y gwasanaethau i gefnogi llywodraethu parhaus y Gronfa yn gymesur a cystadleuol o ran costau wrth gymharu gyda chyfoedion.	Mae ffioedd Hymans yn unol â ffioedd eu cyfoedion, gyda ffioedd sefydlog ar gyfer tasgau craidd, a chost amser ar gyfer tasgau ychwanegol. Mae ffioedd prosiectau penodol wedi ei gytuno ymlaen llaw.